OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1192 (Cy.128)

# CYFLOGAETHA HYFFORDDIANT, CYMRU

## Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mai 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *23 Mai 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Mehefin 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 28(3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**).

Yn unol ag adran 28(5) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y fanyleb safonau prentisiaethau y rhoddwyd effaith iddi gan y Gorchymyn hwn yn cydymffurfio ag adran 31.

Dyma'r fanyleb safonau prentisiaethau ddrafft gyntaf i gael ei llunio ar ôl i adran 28 o'r Ddeddf honno gychwyn, ac yn unol ag adran 28(4), nid oedd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) 2013 a daw i rym ar 23 Mehefin 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru

**2.** Mae'r ddogfen o'r enw "The Specification of Apprenticeship Standards for Wales (SASW)" a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 13 Mai 2013 yn cael effaith.

*Jeff Cuthbert*
O dan awdurdod y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

20 Mai 2013

(**1**) 2009 p.22.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed o dan adran 28(3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("y Ddeddf"), yn rhoi effaith i fanyleb safonau prentisiaethau Cymru.

Mae'r Gorchymyn yn pennu bod y ddogfen o'r enw "The Specification of Apprenticeship Standards for Wales (SASW)" ("y ddogfen") yn cael effaith. Lluniwyd y ddogfen gan Weinidogion Cymru yn unol â'r gweithdrefnau yn adran 28 o'r Ddeddf..

Mae'r ddogfen yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r fframweithiau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi o dan adran 19(1) o'r Ddeddf.